Atodiad

Rhestr Gynnwys Atodiad

Atodiad 1 – Ffurflen foesgeg

Atodiad 2 – Templed holiadur

Atodiad 3 – Templed Cyfweliad

Atodiad 4 – Templed taflen arsylwad

Atodiad 5 – Trawsgrifiad cyfweliad

Atodiad 6 – Adnodd cydsyniad

Atodiad 7 – Taflen arsylwad wedi'i lenwi

Atodiad 8 – Canlyniadau holiadur

Atodiad 9 – Ffurflen caniatad

Atodiad 1 – Ffurflen foeseg

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

FFURFLEN PG2 / E1

CAIS AM GYMERADWYAETH FOESEGOL

Er mwyn i fudd ddeillio o ymchwil ac i leihau'r risg o niwed, mae'n rhaid ei gynnal yn foesegol. Mae'n bosibl na fydd ymchwilydd wedi'i ddiogelu gan yswiriant y Brifysgol os na chafwyd cymeradwyaeth foesegol cyn cychwyn.

Mae'r Brifysgol yn dilyn diffiniad yr OECD o **weithgarwch ymchwil** a geir yn llawlyfr Frascati: "gwaith creadigol a gyflawnir mewn modd systematig er mwyn cynyddu'r stôr o wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth am ddyn, diwylliant a chymdeithas, a'r defnydd o'r stôr hon o wybodaeth i lunio cymwysiadau newydd" Yn hynny o beth, mae hyn yn cwmpasu gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau'r staff, myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, a myfyrwyr ôl-raddedig ac israddedig a addysgir sy'n gweithio ar draethodau hir/prosiectau.

Gelwir yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch ymchwil yn "brif ymchwilydd".

Nid oes angen cymeradwyaeth foesegol ar gyfer archwiliadau arferol, adolygiadau perfformiad, astudiaethau sicrhau ansawdd, profion o fewn gofynion addysgol arferol, a beirniadaeth lenyddol neu artistig.

Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd cyn cwblhau HOLL adrannau'r ffurflen.

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau a'i chymeradwyo cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ymchwil. Gweler y Rhestr Wirio am fanylion y broses ar gyfer categorïau gwahanol o geisiadau.

Dilëwch y Nodiadau Cyfarwyddyd ar ddiwedd y ffurflen CYN cyflwyno eich cais

ADRAN A: Amdanoch Chi (Prif Ymchwilydd)

Enw Llawn:		Carys Hopley			
Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol:		Aelod o'r staff:	☐	Cymrawd ymchwil anrhydeddus:	☐
Myfyriwr Israddedig	☒	Myfyriwr Ôl-raddedig a Addysgir	☐	Myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig	☐

Athrofa/Disgyblaeth Academaidd/Canolfan:	Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, Yr Athrofa
Campws:	Caerfyrddin
Cyfeiriad e-bost:	1605649@student.uwtsd.ac.uk
Rhif Ffôn Cyswllt:	07983756413
I fyfyrwyr:	
Rhif y Myfyriwr:	1605649
Rhaglen Astudio:	BA Addysg Gynradd SAC
Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:	Dr Sioned V Hughes

ADRAN B: Cymeradwyaeth ar gyfer Gweithgarwch Ymchwil

A yw'r gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor? (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ynglŷn â'r broses gymeradwyo briodol ar gyfer lefelau ymchwil gwahanol gan gategorïau gwahanol o unigolion)	**YDY**	☒	**NAC YDY**	☐
			Dyddiad	
Os Ydy, nodwch ffynhonnell y gymeradwyaeth (a'r dyddiad os yw'n wybyddus) ***Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth mewn egwyddor gan y ffynhonnell berthnasol cyn gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol***	Pwyllgor Graddau Ymchwil	☐		
	Pwyllgor Ymchwil yr Athrofa	☐		
	Arall (noder) Arweinydd Modwl ECAD5010	☒	**27.02.20**	

ADRAN C: Deunyddiau Cyfarwyddyd Moesegol Mewnol ac Allanol

Rhestrwch y dogfennau cyfarwyddyd moesegol craidd y cyfeiriwyd atynt wrth gwblhau'r ffurflen hon (gan gynnwys unrhyw godau moeseg ymchwil penodol i'r ddisgyblaeth, a hefyd unrhyw ganllawiau moesegol penodol yn ymwneud â'r fethodoleg arfaethedig). Ticiwch i gadarnhau fod eich cynnig ymchwil yn cydymffurfio â'r codau a'r canllawiau hyn.	
Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil PCYDDS	☒
Polisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS	☒
***BERA (2018)*- https://www.bera.ac.uk/resources/all- publications/resources-for-researchers**	☒
Cyngor Gweithlu addysg - https://www.ewc.wales/site/index.php/en/policy-hub/practitioner- research/research-methods.cfm	☒

ADRAN D: Gweithgarwch Ymchwil Cydweithredol Allanol

A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys cydweithwyr y tu allan i'r Brifysgol?		**YDY**	☐	**NAC YDY**	☒
Os Ydy, rhowch enw'r sefydliad allanol ac enw a manylion cyswllt y prif berson cyswllt a chadarnhad bod y person hwn wedi cydsynio i'w ddata personol gael eu rhannu yn rhan o'r cydweithio hwn:					
Sefydliad					
Enw'r person cyswllt					
Cyfeiriad e-bost y person cyswllt					
Ydy'r unigolyn hwn wedi cydsynio i rannu ei fanylion ar y ffurflen hon?		**YDY**	☐	**NAC YDY**	☐
Ydych chi'n derbyn ysgoloriaeth KESS?		**YDW**	☐	**NAC YDW**	☐
Ydy eich ymchwil yn cael ei ariannu'n allanol?		**YDY**	☐	**NAC YDY**	☐
Ydych chi wedi'ch cyflogi'n benodol i ymgymryd â'r ymchwil hwn naill ai am dâl neu'n wirfoddol?	Gwirfoddol	**YDW**	☐	**NAC YDW**	☐
	Cyflogedig	**YDW**	☐	**NAC YDW**	☐
A yw'r ymchwil yn cael ei wneud o fewn un o Bartneriaethau Dysgu	Os YDY yna nid oes angen ateb y	**YDY**	☐	**NAC YDY**	☐

Proffesiynol yr Athrofa (PDPA) PCYDDS sy'n bod yn barod?	cwestiwn caniatâd isod.				
Mae caniatâd i ymgymryd â'r ymchwil wedi'i roi gan y sefydliad partner	(Os YDY atodwch gopi) Os NA ni all y cais fynd yn ei flaen	**YDY**	☐	**NAC YDY**	☐

Pan fo'r gweithgarwch ymchwil yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â sefydliad allanol

A oes gan y sefydliad hwn ei system cymeradwyaeth foesegol ei hun?	**OES**	☐	**NAC OES**	☐
Os Oes, atodwch gopi o unrhyw gymeradwyaeth derfynol (neu gymeradwyaeth interim) gan y sefydliad				

ADRAN E: Manylion y Gweithgarwch Ymchwil

Teitl dangosol:	Beth yw canfyddiadau staff a dysgwyr o Asesu ar gyfer Dysgu		
Dyddiad cychwyn arfaethedig:	02.03.20	Dyddiad gorffen arfaethedig:	01.04.20

Cyflwyniad i'r Ymchwil (uchafswm o 300 o eiriau)

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgrifennu ar gyfer <u>Cynulleidfa Anarbenigol</u> wrth amlinellu eich ymateb i'r tri phwynt isod:

- *Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil*
- *Cwestiwn Ymchwil Arfaethedig*
- *Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil*
- *Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil*

Dangoswch, yn gryno, sut mae **<u>Ymchwil Cyfredol</u>** wedi arwain y gweithgarwch arfaethedig ac esboniwch

- *Beth fydd y gweithgarwch ymchwil yn ei ychwanegu at y corff gwybodaeth*
- *Sut mae'n mynd i'r afael â maes o bwys.*

Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil

Pwrpas yr ymchwil yw darganfod yr effaith mae asesu cyfoedion ac hunan asesu yn cael ar gynnydd disgyblion. Dewisir y thema yma gan fod y Cwricwlwm Newydd i Gymru yn gosod pwyslais sylweddol ar asesu yn yr ystafell ddosbarth. Yn ogystal, noda Estyn, bod dulliau asesu ar gyfer dysgu yn hanfodol i godi safonau.

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Cwestiwn Ymchwil
Pa effaith mae asesu cyfoedion ac hunan asesu yn cael ar gynnydd disgyblion?

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil

- Ehangu fy nealltwriaeth o'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn gwella fy arfer proffesiynol.
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gryfderau a chyfyngiadau gwahanol offer ymchwil.
- Datblygu sgiliau personol o ddefnyddio offer ymchwil.

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil

- Byddaf yn archwilio barn athrawon a disgyblion ar hunan asesu ac asesu cyfoedion o fewn yr ysgol drwy ddefnyddio holiaduron.
- Byddaf hefyd yn arsylwi gwers i ddarnganfod pa strategaethau asesu ar gyfer dysgu mae'r athro yn ddefnyddio ac ymateb y disgyblion.
- Byddaf yn cyfweld â grŵp o blant i ddarganfod eu barn nhw ar hunan asesu ac asesu cyfoedion.

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Dulliau arfaethedig (uchafswm o 600 o eiriau)

Rhowch grynodeb byr o'r holl ddulliau y **gellid** eu defnyddio yn y gweithgarwch ymchwil, gan ei gwneud yn glir pa dechnegau penodol fydd o bosibl yn cael eu defnyddio. Os ystyrir yn ddiweddarach bod dulliau heblaw am y rhai a restrwyd yn yr adran hon yn briodol, bydd angen cymeradwyaeth foesegol ychwanegol ar gyfer y dulliau hynny.

Darparir holiadur i dua tair aelod o staff yn yr ysgol, gan ofyn iddynt rhoi eu barn onest am strategaethau asesu ar gyfer dysgu a'r effaith mae hyn yn gael ar y disgyblion. Ni fydd yr holiadur yn cynnwys mwy na ddeg cwestiwn ac felly ni ddylai gymryd mwy na 10 munud iddynt gwblhau. Bydd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau lled-strwythuriedig ac felly bydd gofyn iddynt dicio rhai atebion ac ysgrifennu eu barn nhw ar gyfer cwestiynau eraill. Ni fydd gorfodaeth iddynt ateb pob cwestiwn.

Byddaf yn dewis grŵp o dua 6 disgybl i arsylwi yn ystod un o wersi'r dydd. Byddaf yn gwneud nodiadau ar bob disgybl i gyd-fynd gyda'r daflen arsylwi a baratowyd er mwyn dadansoddi'r gwybodaeth. Byddaf hefyd yn nodi cynllun eistedd y disgyblion i gyfoethogi'r data. Bydd modd i'r gyfranogwyr gweld y nodiadau ar y ddiwedd os dymunant.

Er mwyn darganfod barn y disgyblion, byddaf yn cyfweld â tua 6 disgybl yn flwyddyn 2. Bydd y cwestiynau yn rhaid lled-strwythuriedig a ni fydd gorfodaeth i'r disgyblion ateb os nad ydynt yn hapus i wneud. Er mwyn sicrhau cydsyniad y disgyblion, bydd cyfle iddynt dangos eu teimladau wrth ddangos gwyneb hapus, trist neu wedi drysu. Byddaf yn sicrhau cydsyniad sawl gwaith trwy gydol y gyfweliad.

Byddaf yn sicrhau caniatâd yr ysgol i recordio'r cyfweliad gyda'r disgyblion er mwyn dyfynnu o fewn y traethawd yn hwyrach. Yn ogystal, byddaf yn ddefnyddio enghreifftiau o waith y disgyblion i gyfoethogi a sbarduno sgwrs yn ystod y cyfweliad.

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Lleoliad y gweithgarwch ymchwil
Nodwch yr holl leoliadau lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil.

Ysgol pentref fechan yn Sir Gaerfyrddin.

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Gweithgarwch ymchwil y tu allan i'r DU
Os cynhelir gweithgarwch ymchwil dramor, chi sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir ag ystyriaethau moesegol lleol ac y ceisir y caniatâd perthnasol. Nodwch unrhyw ganllawiau lleol sy'n bodoli (e.e. gan gymdeithasau proffesiynol lleol/cymdeithasau dysgedig/prifysgolion) a nodwch a yw'r rhain yn cynnwys amodau moesegol y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol yn y DU (rhowch fanylion unrhyw drwyddedau neu ganiatâd sydd eu hangen). Yn ogystal nodwch a oes unrhyw faterion moesegol penodol yn codi yn sgil y cyd-destun lleol lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil, er enghraifft, materion diwylliannol a/neu gyfreithiol sensitif neu achosion lle mae'r cyfranogwyr yn agored i niwed.

Amherthnasol

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Defnyddio dogfennau nad ydynt wedi'u cyhoeddi: A oes unrhyw rai o'r dogfennau **NAD** ydynt ar gael yn gyhoeddus?	**NAC OES**	☐

	OES	☐
Os Oes, rhowch fanylion yma o'r modd y byddwch yn cael mynediad at ddogfennaeth benodol nad yw wedi'i chyhoeddi a bod hyn yn unol â chyfraith diogelu data gyfredol y wlad dan sylw a Chymru a Lloegr. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*		

ADRAN F: Cwmpas y Gweithgarwch Ymchwil

A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys:	**BYDD**	**NA FYDD**
Defnyddio holiadur neu offeryn ymchwil tebyg?	☒	☐
Defnyddio cyfweliadau?	☒	☐
Defnyddio dyddiaduron?	☐	☒
Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau'n ymwybodol o hynny?	☒	☐
Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau ddim yn ymwybodol o hynny?	☐	☒
Defnyddio recordio fideo neu sain? (cyfweliaadau/arsylwad)	☒	☐
Mynediad i wybodaeth bersonol neu gyfrinachol heb gydsyniad penodol y cyfranogwyr?	☐	☒
Defnyddio unrhyw gwestiynau, ysgogiadau prawf neu gyflwyniad a allai, ym mhrofiad rhai, achosi niwed / tramgwydd corfforol, meddyliol neu emosiynol?	☐	☒
Cyflawni unrhyw weithredoedd a allai achosi embaras neu effeithio ar hunan-barch?	☐	☒
Ymchwilio i gyfranogwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	☐	☒
Defnyddio gweithdrefnau sy'n cynnwys twyll?	☐	☒
Rhoi unrhyw sylwedd, cyfrwng neu blasebo?	☐	☒
Gweithio gydag anifeiliaid fertebraidd byw?	☐	☒
Dulliau eraill o gasglu data gwreiddiol. Eglurwch yn y blwch hwn Er enghraifft, 'grwpiau ffocws'. Nodwch y math o ddull(iau) casglu data yn y blwch hwn a thiciwch y blwch cysylltiedig.		
Manylion unrhyw ddulliau eraill o gasglu data gwreiddiol: Byddaf yn defnyddio gwaith y disgyblion i gasglu mwy o ddata. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)	☒	☐

Os atebwyd NA FYDD i bob cwestiwn, yna mae'r gweithgarwch ymchwil yn isel ei risg (yn foesegol) a **gall** fod wedi'i eithrio rhag **rhai** o'r adrannau canlynol (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd).

Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, ni ddylid ymgymryd â gweithgarwch ymchwil tan y ceir cymeradwyaeth foesegol lawn.

ADRAN G: Cyfranogwyr Arfaethedig

Pwy yw'r cyfranogwyr arfaethedig:	**IE**	**NA**
Myfyrwyr neu staff yn y Brifysgol?	☐	☒
Oedolion (dros 18 oed ac sy'n gymwys i gydsynio)?	☐	☒

Oedolion agored i niwed?	☐	☒
Plant a Phobl Ifanc dan 18 oed? (Bydd angen cydsyniad Rhiant, Gofalwr neu Warcheidwad)	☒	☐
Carcharorion?	☐	☒
Troseddwyr ifanc?	☐	☒
Y rhai y gellid ystyried bod ganddynt berthynas arbennig o ddibynnol â'r ymchwilydd neu gyfryngwr (*gatekeeper*)?	☐	☒
Pobl sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	☐	☒
Eraill (nodwch yn benodol unrhyw grŵp nad ydynt efallai'n gallu rhoi cydsyniad). Nodwch nhw yma a thicio'r blwch priodol	☐	☒
Arall – nodwch yma: (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

Niferoedd a ffynhonnell y cyfranogwyr Rhowch amcangyfrif o'r nifer disgwyliedig o gyfranogwyr. Sut byddwch chi'n canfod cyfranogwyr a sut cânt eu recriwtio?	
Faint o gyfranogwyr a ddisgwylir?	Tua 10 *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*
Pwy fydd y cyfranogwyr?	3 aelod o staff a 6 disgybl o flwyddyn 2 *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*
Sut byddwch chi'n canfod y cyfranogwyr?	Mewn trafodaeth gyda'r athrawon dosbarth, byddwn yn dewis disgyblion yn ôl eu oed a gallu tebyg. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*

Gwybodaeth i gyfranogwyr:	**BYDDAF**	**NA FYDDAF**	**AMH.**
A fyddwch chi'n disgrifio'r prif weithdrefnau ymchwil i gyfranogwyr ymlaen llaw, fel eu bod yn cael gwybod beth i'w ddisgwyl?	☒	☐	☐
A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr fod eu cyfranogiad yn wirfoddol?	☒	☐	☐
A fyddwch chi'n cael cydsyniad ysgrifenedig gan y rhai sy'n cymryd rhan?	☐	☐	☒
A fyddwch chi'n egluro wrth y cyfranogwyr na fydd gwrthod cymryd rhan yn yr ymchwil yn effeithio ar eu triniaeth neu'u haddysg (os yn berthnasol)?	☒	☐	☐
Os yw'r ymchwil yn arsylwadol, a fyddwch chi'n gofyn i'r cyfranogwyr am eu cydsyniad i gael eu harsylwi?	☒	☐	☐
A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr eu bod yn gallu tynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm?	☒	☐	☐
Gyda holiaduron, a fyddwch chi'n rhoi'r dewis i gyfranogwyr i hepgor cwestiynau nad ydynt am eu hateb?	☒	☐	☐
A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr yr ymdrinnir â'u data yn gwbl gyfrinachol ac, os cânt eu cyhoeddi, na ellir eu hadnabod fel eu data hwy?	☒	☐	☐
A fyddwch yn cynnal ôl-drafodaeth gyda'r cyfranogwyr wedi iddynt gymryd rhan, mewn modd sy'n briodol i'r math o ymchwil a gynhaliwyd?	☐	☐	☒
Os atebwyd NA FYDDAF i unrhyw rai o'r cwestiynau uchod, rhowch eglurhad			

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Gwybodaeth i gyfranogwyr:	**BYDD**	**NA FYDD**	**AMH.**
A fydd pob cyfranogwr yn cael ei dalu?	☐	☒	☐
A fydd offer trydanol arbenigol neu offer arall yn cael ei ddefnyddio gyda'r cyfranogwyr?	☐	☒	☐
A fydd unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill i'r ymchwilydd neu'r Brifysgol yn deillio o'r astudiaeth hon?	☐	☒	☐
A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys camarwain cyfranogwyr yn fwriadol mewn unrhyw fodd, neu guddio nodau penodol yr astudiaeth yn rhannol neu'n llawn?	☐	☒	☐
Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn			
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)			

ADRAN H: Risgiau a Ragwelir

Amlinellwch unrhyw risgiau a ragwelir a allai gael effaith niweidiol ar unrhyw rai o'r cyfranogwyr, yr ymchwilwyr a/neu'r Brifysgol, a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â nhw.

Os ydych wedi cwblhau asesiad risg llawn (er enghraifft fel sy'n ofynnol gan labordy, neu gydweithiwr ymchwil allanol) gallwch atodi'r asesiad hwnnw i'r ffurflen hon.

A oes asesiad risg llawn wedi'i gwblhau a'i atodi?	**Oes**	☐
	Nac oes	☒

Risgiau i'r cyfranogwyr
Er enghraifft: gofid emosiynol, datgeliad ariannol, niwed corfforol, trosglwyddo data personol, gwybodaeth sefydliadol sensitif

Risg i'r Cyfranogwr:	*Sut byddwch chi'n lleihau'r Risg i'r Cyfranogwr*
- Gall plant deimlo'n anesmwyth neu bryderus wrth drafod themâu o fewn cyfweliad.	- Sicrhau bod yr amgylchedd yn un anffurfiol sydd ddim yn rhoi pwysau ar y plant i ymateb mewn unrhyw fodd. Hefyd byddaf yn sicrhau ei bod yn gwybod gallant adael y broses ar unrhyw bryd.
- Plant yn datgelu rhywbeth sensitif yn ystod y cyfweliad.	- Sicrhau bod cyswllt a thrafodaeth preifat yn cael ei gynnal gyda'r staff diogelu plant yr ysgol.
- Cyfweld gyda'r disgyblion mewn ystafell gydag ond fi a'r disgyblion.	- Sicrhau bod oedolyn arall yn yr ystafell a recordio'r trafodaeth fel bod tystiolaeth o'r hyn a ddigwyddodd.
- Datgelu enwau'r cyfranogwyr.	- Defnyddio rhifau i gyfeirio at y disgyblion a dileu unrhyw gywbodaeth sy'n cynnwys y data yma.
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)	*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*

Os yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys pynciau sensitif neu bynciau sy'n peri gofid neu gywilydd (e.e. gweithgarwch rhywiol, defnydd o gyffuriau) neu faterion sy'n debygol o ddatgelu gwybodaeth sy'n galw am weithredu pellach (e.e. gweithgarwch troseddol), rhowch fanylion y gweithdrefnau i ddelio â'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth/gyngor (e.e. rhifau llinellau cymorth) a gynigir i'r cyfranogwyr. Sylwer, lle bo hynny'n berthnasol, y dylai gweithdrefnau cydsynio ei gwneud yn glir os darganfyddir rhywbeth sydd, neu a allai fod, yn anghyfreithlon yn ystod prosiect, ei bod yn bosibl y bydd angen ei ddatgelu i'r awdurdodau priodol

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)	
Risgiau i'r ymchwilydd Er enghraifft: diogelwch personol, niwed corfforol, gofid emosiynol, risg o gyhuddiad o niwed/ anwedduster, gwrthdaro buddiannau	
Risg i'r ymchwilydd: *Cwyn yn erbyn yr ymchwilydd neu gyhuddiad o ymarfer amhroffesiynol.* -Cael i gyhuddo o ffugio data wrth gynnal y gwaith ymchwil. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*	*Sut byddwch chi'n lleihau'r Risg i'r Ymchwilydd:* *Dilyn canllawiau BERA (2018) a'r Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil 2017-2020 PCYDDS.* - Cofnodi yn aml yn ystod y gwaith ymchwil a chasglu nodiadau anffurfiol heb enwi, yna eu dinistrio wedi'r ymchwil. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*
Risgiau i'r Brifysgol/sefydliad Er enghraifft: cyhoeddusrwydd gwael, colled ariannol, diogelu data	
Risg i'r Brifysgol: Risg i'r berthynas rhwng PDPA a'r brifysgol gyda'r ysgolion partner os yw'r ymchwilydd yn ymddwyn yn amhroffesiynol Colli enw da y brifysgol. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)	Sut byddwch chi'n lleihau'r Risg i'r Brifysgol: Sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei wneud yn ôl gweithdrefnau, fframweithiau, safonau moesegol a phroffesiynol a pholisïau'r ysgol. Ymddwyn yn broffesiynol a dilyn canllawiau moeseg y brifysgol. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)			
Os yw gweithgarwch ymchwil yn cynnwys plant neu oedolion agored i niwed, mae'n rhaid cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dod i unrhyw gysylltiad â'r cyfranogwyr hyn.	**OES**	**NAC OES**	**AMH.**
A yw'n ofynnol bod gennych Dystysgrif DBS gyfredol ar gyfer eich ymchwil?	☒	☐	☐

ADRAN I: Adborth, Cydsyniad a Chyfrinachedd

Adborth Pa ôl-drafodaeth ac adborth a ddarperir i'r cyfranogwyr, sut y gwneir hyn a phryd?
Amherthnasol *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*
Cydsyniad gwybodus Disgrifiwch y trefniadau i hysbysu darpar gyfranogwyr, cyn iddynt roi cydsyniad, o'r hyn mae'n ei olygu i gymryd rhan. Disgrifiwch y trefniadau i gyfranogwyr roi cydsyniad llawn cyn i'r gwaith o gasglu data ddechrau. Os yw'n amhriodol cael cydsyniad yn y modd hwn, eglurwch sut y ceir cydsyniad a sut y cofnodir hynny yn unol â deddfwriaeth diogelu data gyfredol.
Caiff hyn ei amlinellu mewn llythyr atodol i'r holl gyfranogwyr. Bydd y llythyr yn cael ei rhoi cyn i'r ymchwiliad cychwyn sydd yn golygu eu bod nhw'n cydsynio i gymryd rhan. Gan fy mod yn mynd i ymchwilio i blant o oedran ifanc byddaf yn gofyn am ganiatâd ar lafar wrthynt ac yn gallu dangos wyneb coch melyn neu wyrdd i ddweud os ydynt yn hapus i gymryd rhan. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*
Cyfrinachedd / Anhysbysrwydd Nodwch sut y sicrheir cyfrinachedd ac anhysbysrwydd y cyfranogwyr mewn unrhyw gynnyrch. Os na chynigir anhysbysrwydd, eglurwch pam.

Byddwn yn dileu unrhyw enwau os maent yn codi i sicrhau cyfrinachedd. Byddaf yn adnabod a dilyn canllawiau hawliau i'r cyfranogwyr i gyfrinachedd ac anhysbysrwydd. Bydd y data yn cael ei storio mewn lle diogel, cyfrinachol. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*

ADRAN J: Diogelu a Storio Data

Wrth gwblhau'r adran hon cyfeiriwch at Bolisi Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol a'r adnoddau helaeth ar dudalennau gwe Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol (http://uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/).

A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys data personol (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018)?	YDY	NAC YDY
*Mae **"data personol"** yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â pherson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy ('testun data'). Mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig wrth gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.*	☐	☐
Os YDY, rhowch ddisgrifiad o'r data ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
A yw'n cynnwys data categori arbennig (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)?	YDY	NAC YDY
*Mae **"Data categori arbennig"** yn golygu data personol sensitif sy'n cynnwys gwybodaeth am y testunau data - (a) tras hiliol neu ethnig, (b) safbwyntiau gwleidyddol, (c) credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg, (d) aelodaeth o undeb llafur (yn ôl ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992), (e) iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol, (f) bywyd rhywiol, (g) geneteg, (h) data biometrig (a ddefnyddir i ddibenion adnabod),*	☐	☐
Os YDY, rhowch ddisgrifiad o'r data categori arbennig ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys storio data personol a/neu ddata categori arbennig ar un o'r canlynol:	BYDD	NA FYDD
Ffeiliau llaw (h.y. ar bapur)?	☐	☐
Cyfrifiaduron y brifysgol?	☐	☐
Cyfrifiaduron cwmnïau preifat?	☐	☐
Cyfrifiaduron cartref neu bersonol eraill?	☐	☐
Gliniaduron / CDs / disgyrwyr cludadwy / cofbinnau?	☐	☐
Storio yn y "cwmwl" neu wefannau?	☐	☐
Arall – noder:	☐	☐
Yn achos yr holl ddata a storir, eglurwch y mesurau sydd yn eu lle i sicrhau diogelwch y data a gasglwyd, cyfrinachedd y data, yn cynnwys manylion diogelu'r data gan gyfrinair, eu hamgryptio, eu gwneud yn ddienw a'u rhoi dan ffugenw:		

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
Storio Pob Data		
A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys unrhyw rai o'r gweithgareddau canlynol:	**BYDD**	**NA FYDD**
Trosglwyddo data electronig mewn unrhyw ffurf?	☐	☐
Rhannu data ag eraill yn y Brifysgol?	☐	☐
Rhannu data â sefydliadau eraill?	☐	☐
Allforio data y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd neu fewnforio data o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig?	☐	☐
Defnyddio cyfeiriadau, codau post, ffacsys, e-byst neu rifau ffôn personol?	☐	☐
Cyhoeddi data a allai ganiatáu adnabod unigolion?	☐	☐
Defnyddio system rheoli data?	☐	☐
Archifo data?	☐	☐
Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn, gan egluro sut y caiff hyn ei wneud yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data (a/neu unrhyw drefn ryngwladol gyfatebol):		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
Rhestrwch bawb fydd â hawl i weld y data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil:		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
Rhestrwch bawb fydd â rheolaeth o'r data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil ac a fydd yn gweithredu fel ceidwad y data:		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
Rhowch fanylion y trefniadau storio data, yn cynnwys y mesurau diogelwch sydd yn eu lle i ddiogelu'r data, ble caiff y data eu storio, am ba hyd, ac ym mha ffurf. A fydd y data'n cael eu harchifo – os felly, sut ac os na, pam.		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
Nodwch a fydd eich data'n cael ei storio yng Nghadwrfa Data Ymchwil PCYDDS (gweler https://researchdata.uwtsd.ac.uk/). Os felly, eglurwch. *(Yn fwyaf perthnasol i staff academaidd)*		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
Cadarnhewch eich bod wedi darllen cyfarwyddyd PCYDDS ar reoli data (gweler https://www.uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/)	**YDW**	☐
	NAC YDW	☐
Cadarnhewch eich bod yn ymwybodol bod angen i chi gadw'r holl ddata tan ar ôl i'ch ymchwil ddod i ben neu ddiwedd eich cyllid	**YDW**	☐
	NAC YDW	☐

ADRAN K: Datganiad

Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i chyflwyno yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi ceisio nodi unrhyw risgiau a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch ymchwil ac rwyf yn cydnabod f'ymrwymiadau innau a hawliau'r cyfranogwyr. Wrth gyflwyno'r cais hwn cadarnhaf drwy hyn fy mod yn ymrwymo i sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol sydd wedi'i gyhoeddi ar y wefan:. https://www.uwtsd.ac.uk/research/research-ethics/		
Llofnod yr Ymgeisydd:	C Hopley	**Dyddiad:** 27.02.20

Ar gyfer Cyflwyniadau MYFYRWYR:

Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:	Dr Sioned V Hughes	**Dyddiad:** **27.02.20**
Llofnod:	*S.V.Hughes*	

Ar gyfer Cyflwyniadau STAFF:

Cyfarwyddwr Academaidd/ Deon Cynorthwyol:		**Dyddiad:**
Llofnod:		

Rhestr Wirio: Cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen yn unol â'r canllawiau ac wedi atodi unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol:

☒	Rwyf wedi darllen y nodiadau cyfarwyddyd a ddarperir cyn cwblhau'r ffurflen.
☒	Rwyf wedi cwblhau **HOLL ADRANNAU PERTHNASOL** y ffurflen yn llawn.
☒	Cadarnhaf fod y gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor.
☐	Rwyf wedi atodi copi o'r gymeradwyaeth derfynol/interim gan sefydliad allanol (**lle bo'n briodol**).
☐	Rwyf wedi atodi asesiad risg llawn (a HEB gwblhau Adran H y ffurflen hon) (lle bo'n briodol) *TICIWCH HWN DIM OND OS YDYCH WEDI **ATODI ASESIAD RISG LLAWN***
☒	Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol.
☒	Cyn cychwyn casglu data rwy'n deall ei bod yn rhaid i'r holl ddogfennau sydd wedi'u hanelu at ymatebwyr (yn cynnwys taflenni gwybodaeth, ffurflenni cydsynio, holiaduron, rhaglenni cyfweliadau ac ati) gael eu cadarnhau gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau/Goruchwyliwr, y tiwtor modwl neu'r Cyfarwyddwr Academaidd.
☒	Rwyf wedi dileu'r nodiadau cyfarwyddyd cyn cyflwyno'r ffurflen PG2 i'w hystyried.

Atodiad 2 – Templed holiadur

Pa effaith mae hunan asesu ac asesu cyfoedion yn cael ar gynnydd disgyblion?

Diolch yn fawr am eich amser a chyfraniad i gyflawni'r holiadur yma. Pwrpas yr holiadur yw canfod pa effaith mae hunan asesu ac asesu cyfoedion yn cael ar gynnydd disgyblion. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael eu defnyddio fel rhan o fy ngwaith ymchwil yn y brifysgol, ond nid oes unrhyw orfodaeth i chi lenwi'r holiadur. Ni ddylai gymryd mwy na 10 munud i'w gyflawni, ond nid oes terfyn amser. Diolch eto.

1. Ydych chi'n defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eich dosbarth chi?

- ○ Ydw
- ○ Nac ydw

2. Pa gyfnod ydych chi'n addysgu?

- ○ Cyfnod syflaen
- ○ Cyfnod allweddol 2

3. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r strategaethau yma yn eich gwersi?

	Byth	Weithiau	Yn aml	Pob wers
Hunan asesu	○	○	○	○
Asesu cyfoedion	○	○	○	○

4. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r dyfyniadau isod?

	Cytuno	Anghytuno
Mae defnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu yn hanfodol i godi safonau disgyblion.	○	○
Wrth hunan asesu, mae'r disgyblion yn gwybod beth sydd angen wneud i ddatblygu.	○	○
Nid yw hunan asesu yn effeithiol.	○	○
Mae asesu cyfoedion yn cymryd gormod o amser.	○	○

Mae'n rhaid bod gan y disgyblion perthynas da er mwyn gallu asesu cyfoedion.		
Nid yw'r disgyblion yn talu sylw i'r sylwadau.		
Mae'r sylwadau yn helpu'r disgyblion i symud ymlaen.		

5. Beth yw'r heriau rydych chi'n eu hwynebu wrth ddefnyddio hunan asesu? (Dewiswch y rhai perthnasol)

- [ ] Amser
- [ ] Arian
- [ ] Ymateb y disgyblion i'r sylwadau
- [ ] Hunan hyder y disgyblion
- [ ] Nifer y disgyblion yn y dosbarth
- [ ] Adnoddau

6. Beth yw'r heriau rydych chi'n eu hwynebu wrth ddefnyddio asesu cyfoedion? (Dewiswch y rhai perthnasol)

- [ ] Amser
- [ ] Arian
- [ ] Ymateb y disgyblion i'r sylwadau
- [ ] Hunan hyder y disgyblion
- [ ] Nifer. y disgyblion yn y dosbarth
- [ ] Adnoddau

7. Yn eich barn chi, pa mor dda ydy'r disgyblion yn ymateb i hunan asesu?

0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10

Dim o gwbl — Ymateb yn dda iawn

8. Beth yw'r prif reswm dros eich sgôr?

Enter your answer

9. Yn eich barn chi, pa mor dda ydy'r disgyblion yn ymateb i asesu cyfoedion? *

0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10

Dim o gwbl — Ymateb yn dda iwan

10. Beth yw'r prif reswm dros eich sgôr?

Enter your answer

11. Yn eich barn chi, sut mae hunan asesu ac asesu cyfoedion yn helpu'r disgyblion i symud ymlaen?

Enter your answer

Atodiad 3 – Templed cyfweliad

Cwestiynau cyfweld

Pa effaith mae hunan asesu ac asesu cyfoedion yn cael ar gynnydd disgyblion?

Diolch am gymryd rhan yn y cyfweliad yma. Byddwn yn trafod eich barn chi ar hunan asesu ac asesu cyfoedion. Nid oes rhaid i chi gymryd rhan os nad ydych am. Mae gennych 3 wyneb o'ch blaen. Os ydych yn hapus i ateb y cwestiwn dangoswch y wyneb hapus, os nad ydych yn siŵr dangoswch y wyneb melyn ac os nad ydych yn hapus i ateb dangoswch y wyneb coch.

1. Ydych chi'n hoffi pan rydych yn cael cyfle i farcio gwaith eich hun neu waith eich ffrind? – pam?

2. Pa mor aml/pryd ydych chi'n cael marcio gwaith eich hun a gwaith eich ffrind?

3. Beth mae'n rhaid i chi wneud pan mae Miss yn gofyn i chi marcio gwaith eich ffrind?

4. Ydych chi'n cael dewis pwy sy'n marcio eich gwaith neu ydy Miss yn dewis?

Ydych chi dal yn iawn i barhau?

5. Os ydych chi'n cael dewis, pwy fyddech chi'n dewis a pham?

6. Beth sydd angen arnoch pan rydych yn hunan asesu?– taflenni, pensiliau lliw??

7. Sut ydych chi'n defnyddio'r sylwadau i'ch helpu chi y tro nesaf?

8. Ydych chi'n meddwl bod y sylwadau yma yn helpu chi?

9. Oes well gennych chi i farcio gwaith eich hun, gwaith eich ffrind neu Miss i farcio eich gwaith?

Atodiad 4 – Templed taflen arsylwi

Arsylwad grŵp

Dyddiad: Amser:

Gwers: Athro:

Plentyn	Asesu cyfoedion	Hunan asesu
1		
2		
3		
4		
5		
6		

Rhan 2

Trefniadau eistedd



Plentyn	Sylwadau
1	
2	
3	
4	
5	
6	

Sylwadau:

Atodiad 5 – Trawgrifiad cyfweliad

Y: Mae gennych chi i gyd gwyneb gwyrdd, melyn a coch. Pwrpas y gwynebau yma yw sicrhau bod pawb yn hapus i gymryd rhan yn ateb y cwestiynau. Os ydych yn hapus i gymryd rhan, dangoswch y wyneb gwyrdd, os ydych yn ansicr o'r cwestiwn, dangoswch y wyneb melyn ac os ydych yn anhapus i ateb, dangoswch y wyneb coch. Does dim rhaid i neb gymryd rhan os nad ydych yn hapus i wneud hyn. Felly, os allwch chi ddangos os ydych yn barod i gymryd rhan neu beidio.

1: *gwyneb gwyrdd*
2: *gwyneb gwyrdd*
3: *gwyneb gwyrdd*
4: *gwyneb gwyrdd*
5: *gwyneb gwyrdd*

Y: Grêt, diolch yn fawr iawn. I ddechrau, ydych chi'n cael marcio gwaith eich hun neu gwaith eich gilydd weithiau?
1: Ydyn.
Y: Ydych chi'n cael gwneud hyn trwy'r amser?
3: Weithiau rydym ni'n cael.
Y: Pa fath o waith ydych chi'n cael marcio?
Saib
Y: Pa waith ydych chi wedi marcio o'r blaen?
4: Gwaith rhif
Y: Gwaith rhif? Gwaith pwy wnes di farcio?
4: 2
2: Roeddwn i'n marcio gwaith 1.
Y: Hyfryd, oeddech chi'n cael dewis, neu oedd Miss yn dewis?
4: Yr un oedd yn agos i ni.
1: Roedd rhaid i ni 'swapo' gwaith ni rownd
Y: Felly roeddech chi'n rhoi'r llyfr i'r person drws nesaf i chi?
3: Ie
Y: Beth sydd angen arnoch pan rydych yn marcio gwaith eich ffrind?
5: Ym pensil porffor.
3: Pensil porffor neu gwyrdd.
2: Na, pensil porffor
Y: Pam pensil porffor?
1: Achos taw gwaith rhywun arall yw e.
Y: Ydych chi byth yn cael cyfle i farcio gwaith eich hun?
2: Weithiau.
Y: Sut ydych chi'n gwneud hyn?
3: Rydym ni'n defnyddio pensil gwyrdd, ond pan rydym ni'n marcio gwaith ffrind, rydym ni'n defnyddio pensil porffor.

Ydy pawb yn hapus i gario ymlaen?

Y: Pan rydych chi neu'ch ffrind yn marcio'r gwaith, ydych chi'n edrych ar beth maen nhw'n dweud?
4: Na
1: Fi yn
Y: Sut wyt ti'n gwneud hyn?
1: Darllen e a gweld os ydyn nhw wedi rhoi gwyneb hapus.
Y: Beth mae'r gwyneb hapus yn dweud wrthoch chi?
4: Bod y gwaith yn gywir.
3: Bod nhw'n hapus gyda'r gwaith.
Y: Ydy hyn yn helpu chi?
3: Ydy achos ti'n gwybod os ydyt ti wedi neud e'n iawn neu ddim.
Y: Beth os nad ydyn nhw wedi gwneud y gwaith yn iawn, beth ydych chi'n gwneud?
5: Gwyneb oren. Fel yr un fan hyn. *(Pwyntio at waith yn y llyfr)* Neu os ydyn nhw wedi gwneud popeth yn anghywir gwyneb coch.
Y: Os ydyn ni'n edrych ar y gwaith yma, sut mae'r disgybl yn gwybod beth i wneud nesaf?
4: Mae'r ffrind wedi dweud "angen edrych ar gwestiwn 2".
2: A wedyn maen nhw wedi mynd yn ôl i wirio a newid.
3: A maen nhw wedi rhoi gwyneb hapus ar ôl newid y gwaith.
Y: Ydych chi'n mynd nôl dros y gwaith i wneud cywiriadau os oes angen?
1: Ydyn achos ti'n gwybod bod e'n anghywir a bod angen gwirio fe.
Y: Ydych chi'n teimlo fel bod hyn yn helpu chi?
3: Ydw, achos ni'n dysgu mwy pan rydyn ni'n mynd nôl drosto fe.
4: A ma fe'n helpu ni i wybod pa gwestiynau sydd yn anghywir.

Y: Oes well gennych chi os ydych chi'n marcio'r gwaith, ffrind yn marcio'ch gwaith, neu Miss yn marcio'r gwaith? Ewn ni o gwmpas pawb.
5: Fi
1: Miss
2: Miss
3: Miss
4: Miss
Y: Pam ydych chi'n dweud Miss?
3: Mae'n helpu ni mwy pan mae Miss yn gwneud e achos mae hi'n gwybod beth sydd angen i ni gwneud.

Atodiad 6 – Adnodd cydsyniad



Atodiad 7 – Taflen arsylwi wedi'i gwblhau

Arsylwad grŵp

Dyddiad: 28/2/20 Amser: 9:00 - 9:20

Gwers: Mathemateg – adio/rhif Athro [redacted]

Plentyn	Asesu cyfoedion	Hunan asesu
1	- Rhoi llyfr i 2 - Marcio llyfr 5 - beiro porffor - Gwyneb melyn - Dealltwriaeth da iawn o'r gwaith.	- Gwyneb gwyrdd with hunan farcio a sylwad "Rydw i wedi mwynhau gwneud y gwaith"
2	- Marcio llyfr ~~2~~ 1 -	- Gwyneb gwyrdd - sylwad "rydw i wedi deall y gwaith"
3	- Marcio llyfr 2 - Trafod yr atebion gydair partner.	- Gwyneb oren with hunan farcio - Neud newidiadau - NEWID I WYNEB GWYRDD ar ôl trafodaeth gydair athro.
4	- Yn ansicr o beth i nodi. - Marcio llyfr 3 - Gofyn i'r athrawon beth i roi -	- Gwyneb gwyrdd a sylwad. - Ychydig yn ansicr o beth i nodi
5	- Marcio llyfr 4 - Angen cefnogaeth i farcio. - Athrawes yn helpu i farcio	- Edrych ar y newidiadau ac yna hunanfarcio gyda gwyneb gwyrdd
~~6~~		

Rhan 2

Trefniadau eistedd



Plentyn	Sylwadau
1	Marcio llyfr 5 Hyderus iawn yn marcio
2	Marcio llyfr 1
3	Marcio llyfr 2
4	Marcio llyfr 3 Yn ansicr
5	Marcio llyfr 4 Angen cefnogaeth / sgaffald
~~6~~	

Sylwadau:

- Athrawes yn dewis pa ffordd mae'r llyfrau yn gylchdroi
- Defnyddio bwrdd gwyn bach i ysgrifennu patrwm brawddegau fel sylwad.
- Asesu cyfoedion - porffor Hunan asesu - gwyrdd.

Atodiad 8 – Calyniadau holiadur

3	09:24	Active
Responses	Average time to complete	Status

View results

Open in Excel

1. Ydych chi'n defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eich dosbarth chi?

More Details

Ydw	3
Nac ydw	0



2. Pa gyfnod ydych chi'n addysgu?

More Details

Cyfnod syflaen	2
Cyfnod allweddol 2	1

3. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r strategaethau yma yn eich gwersi?

More Details



4. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r dyfyniadau isod?

More Details



5. Beth yw'r heriau rydych chi'n eu hwynebu wrth ddefnyddio hunan asesu? (Dewiswch y rhai perthnasol)

More Details

Amser	3
Arian	0
Ymateb y disgyblion i'r sylwadau	2
Hunan hyder y disgyblion	1
Nifer y disgyblion yn y dosbarth	2
Adnoddau	0



6. Beth yw'r heriau rydych chi'n eu hwynebu wrth ddefnyddio asesu cyfoedion? (Dewiswch y rhai perthnasol)

More Details

Amser	3
Arian	0
Ymateb y disgyblion i'r sylwadau	2
Hunan hyder y disgyblion	1
Nifer. y disgyblion yn y dosbarth	2
Adnoddau	0



7. Yn eich barn chi, pa mor dda ydy'r disgyblion yn ymateb i hunan asesu?

More Details

Promoters	1
Passives	0
Detractors	2

8. Beth yw'r prif reswm dros eich sgôr?

3 Responses

ID ↑	Name	Responses
1	anonymous	Yn dilyn digon o fewnbwn gan yr athro dosbarth a pholisi Ysgol Gyfan mae'n effeithiol.
2	anonymous	Nid oes y gallu gan blant bach I asesu'n feirniadol - hynny yw maent yn meddwl bod pob darn o waith maen nhw'n gwneud yn dda.
3	anonymous	Maent yn hoffi'r cyfleoedd i hunan asesu, ond nid ydynt ar adegau yn ddigon aeddfed i feddwl am ffordd ymlaen/sut i wella gwaith.

9. Yn eich barn chi, pa mor dda ydy'r disgyblion yn ymateb i asesu cyfoedion?

More Details

Promoters	0
Passives	1
Detractors	2

10. Beth yw'r prif reswm dros eich sgôr?

3 Responses

ID ↑	Name	Responses
1	anonymous	Fel uchod.
2	anonymous	Mae'r plant yn meddwl bod gwaith ei partner yn dda pob amser.
3	anonymous	Oherwydd nifer y disgyblion yn y dosbarth, nid oes digon o gyfleoedd gyda staff i wirio sylwadau disgyblion am eu cyfoedion, ac felly ambell dro nid yw'r sylwadau o safon/digon aeddfed. Er enghraifft, ar adegau bydd disgyblion am ddweud pethau neis wrth ffrind, felly nid yw'r sylwad/ffordd ymlaen yn gywir iawn/addas.

11. Yn eich barn chi, sut mae hunan asesu ac asesu cyfoedion yn helpu'r disgyblion i symud ymlaen?

3 Responses

ID ↑	Name	Responses
1	anonymous	Cyfle i feddwl dros eu dysgu eu hunain a'r ffordd ymlaen gan obeithio eu bod yn cofio erbyn y tro nesaf.
2	anonymous	Wrth ddarllen dros yn gwaith gyda'r plant yn unigol a chynnig syniadau am adborth maent yn deall yn well. Yn anffodus mae hyn yn cymryd llawer o amser ac o ganlyniad rydw i'n gorfod amserlenni sesiynau hunanasesu/cyfoedion.
3	anonymous	Pan mae'r dasg o hunan asesu / asesu cyfoedion yn cael eu gwneud yn gywir, mae'r cyfle i wirio gwaith ei hun yn rhoi cyfle i blant darllen dros ei gwaith, a gwella man camgymeriadau. Mae asesu cyfoedion hefyd gallu bod o help i fagu hyder unigolion, mae'r ffaith bod ffrind yn meddwl bod darn o waith yn dda am amrywiaeth o resymau, yn codi hyder ac yn dda i les y plant. Mae clywed ffordd ymlaen o ffrind gallu bod yn fwy pwysig i unigolion.

Atodiad 9 – Ffurflen caniatad

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru / Education for Wales

APLP
PDPA

Diwrnod Ymchwil mewn Ysgol

BA2

02/03/20

Rhesymwaith

Mae'r Diwrnod Ymchwil yn yr Ysgol yn rhan bwysig **o'r Modwl ECAD5010C – *Ymchwilio i'r Dysgu – beth, sut a pham rydw i'n addysgu?*** Nod y modiwl yw **datblygu sgiliau ymchwilio darpar athrawon** drwy ddarparu cyfle iddynt greu holiadur, cwestiynau cyfweliad a thempled cofnodi arsylwad ac yna treialu'r offer ymchwilio yn yr ysgol (h.y. Ysgol PAP2).

Rhoddir y cwestiwn ymchwil cyffredinol hyn i'r darpar athrawon, 'Beth yw barn plant ac athrawon o Asesu ar gyfer Dysgu (AagD)?' Ar gyfer yr aseinaid mae rhaid i'r darpar athrawon ddewis agwedd benodol o AagD (e.g. rhoi adborth, gofyn cwestiynau) ac yna **dylunio, treialu a gwerthuso'n feirniadol yr offer ymchwilio.**

Cyn y Diwrnod Ymchwil yn yr Ysgol bydd y darpar athrawon wedi cynllunio eu offer ymchwilio, h.y. yr holiadur, cwestiynau cyfweld a thaflen arsylwad, ac wedi cwblhau ffurflen foeseg.

Yn ystod y Diwrnod Ymchwil yn yr Ysgol dylai'r darpar athrawon wneud y canlynol:

- Dosbarthu a chasglu holiadur (staff a/neu plant yr ysgol)
- Cyfweld grwp o blant (dosbarth PAP2) a/neu staff yr ysgol
- Arsylwi grwp o blant (dosbarth PAP2)

Yn dilyn y 'Diwrnod Ymchwil yn yr Ysgol', bydd y darpar athrawon yn **gwerthuso'n feirniadol gwerth y dulliau ymchwilio** hyn. Nid y data fydd y prif ffocws, ond yn hytrach y dyluniad ymchwil, h.y. effeithiolrwydd yr offer ymchwilio.

Côd ymddygiad ac ymarfer proffesiynol CGA

Disgwylir i bob un o'r rhanddeiliaid sy'n rhan o'r Diwrnod Ymchwil ddilyn gofynion proffesiynol athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg.
https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga.html

Disgwylir iddynt hefyd gydymffurfio â Chanllawiau **BERA Ethical Guidelines for Educational Research** (2018) https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018 ac **Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil PCYDDS**
UWTSD Research Ethics & Integrity Code of Practice

Llythyr i'r ysgol i'w ddosbarthu i rieni/gwarcheidwaid

Ymchwil yn y dosbarth gyda darpar athrawon

Moeseg Ymchwil

Efallai y bydd gofyn i ddarpar athrawon ymgymryd ag ymchwil ar raddfa fach yn yr ystafell ddosbarth er mwyn cwblhau aseiniadau.

Dylai'r llythyr canlynol gael ei hysbysu i rieni / gwarcheidwaid fel y caniateir caniatâd gwybodus neu gais i dynnu'n ôl o'r ymchwil sy'n cael ei wneud.

Mae'r ysgol hon yn bartner gyda'r bartneriaeth dysgu proffesiynol sy'n rhan o'r Athrofa ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin ac Abertawe. Mae'r ysgol hon yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr sy'n dysgu bod yn athrawon. Pan fydd athrawon dan hyfforddiant yn gweithio yn yr ysgol maent bob amser dan oruchwyliaeth yr athro dosbarth. Pwrpas y llythyr hwn yw eich hysbysu y bydd yn ofynnol i athrawon dan hyfforddiant, fel rhan o'u hasesiad yn y Brifysgol, werthuso arfer yn y dosbarth. Weithiau bydd hyn ar ffurf gwerthusiad neu asesiad ysgrifenedig o waith plentyn a gall hefyd olygu gofyn i staff a phlant am eu safbwyntiau. Nid yw'r gweithgaredd hwn yn wahanol i arfer dosbarth arferol.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y gwaith sy'n mynd ymlaen yn nosbarth eich plentyn, mae croeso i chi ofyn i'r athro dosbarth. Yn dilyn y drafodaeth hon, os penderfynwch nad ydych am i'ch plentyn gymryd rhan mewn unrhyw werthusiad dosbarth a gynhelir gan athrawon dan hyfforddiant, yna rhowch wybod i'r athro dosbarth.

Os hoffech ragor o wybodaeth am addysg gychwynnol a hyfforddiant athrawon newydd cysylltwch â'r Swyddfa Bartneriaeth trwy uwch weinyddwr y Ganolfan , Christine Rees.
Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y wybodaeth hon.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru / Education for Wales

APLP
PDPA
Partnerseth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Ffurflen Caniatâd ECAD5010C

Rhaid i ddarpar athrawon gael y caniatâd ysgrifenedig canlynol gan y pennaeth cyn treialu eu dulliau ymchwilio.

I'w gwblhau gan yr ysgol:

Rwy'n cytuno y gall Carys Hopley fel cynrychiolydd o'r Athrofa:

(Ticiwch fel y bo'n briodol)

-Dynnu lluniau ✓
-Cyfweld ✓
-Cymryd fideo ✓
-Arsylwi ✓
-Dyfynnu dogfennau polisi'r ysgol ✓
-Recordio ✓
-Cynnal holiaduron ✓

Enw'r Pennaeth N. [redacted] N. Th [redacted]

Enw'r ysgol [redacted]

I'w gwblhau gan y darpar athro/awes:

Os caf i ganiatâd o'r fath, cytunaf i gadw at y foeseg sydd wedi'i hymgorffori yng Nghod Ymarfer CGA a Chanllawiau Moeseg BERA (2018) ac ni fyddaf yn dosbarthu unrhyw ddeunydd o'r fath i gynulleidfaoedd y tu hwnt i awdurdodau'r Brifysgol heb eu caniatâd.

Enw'r darpar athrawes/athro: Carys Hopley Llofnod: CHopley

Cyfeiriad e-bost PCYDDS: 1605649@student.uwtsd.ac.uk

Rhaglen (e.e. BA Add/TAR Cynradd):

Dyddiad: 28/2/20